## MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

***Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023***

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Senedd Cymru os yw un o Offerynnau Statudol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy’n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

2. Mae Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023 ("y Rheoliadau") yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac fe'u gosodwyd ar ffurf ddrafft gerbron Senedd y DU ar 16 Hydref 2023. Maent i'w gweld yma:

   https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2023/9780348252415

3. Mae disgwyl i'r Rheoliadau ddod i rym ar 1 Ionawr 2024.

4. Gosodwyd copïau o'r Rheoliadau a'r dogfennau cysylltiedig gerbron y Senedd heddiw ochr yn ochr â'r memorandwm hwn.

5. Mae'r Offeryn Statudol yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym mharagraff 8 isod.

6. Mae'r memorandwm hwn wedi'i osod y tu hwnt i ddyddiad cau arferol RhS 30A o dri diwrnod, am fod angen gwirio'r geiriad cymhleth a manwl yn yr offeryn. Ystyriwyd bod y Rheoliadau yn "Offeryn Statudol perthnasol" at ddibenion RhS 30A mewn cysylltiad â llawer o'u darpariaethau, fel y nodir isod.

### Crynodeb o'r Offeryn a'i amcan (gofyniad RhS 30A.4(i))

7. Amcan yr Offeryn Statudol yw diweddaru cyfeiriadau mewn deddfwriaeth sylfaenol bresennol a wnaed yn San Steffan o "cyfraith yr UE a ddargedwir " i "cyfraith a gymathwyd". Mae hyn yn adlewyrchu adran 5 o Ddeddf Cyfraith yr

UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("Deddf REUL"), sy'n darparu y bydd cyfraith yr UE a ddargedwir (“REUL”) (a thermau cysylltiedig) sy’n parhau mewn grym yn cael ei galw’n "cyfraith a gymathwyd" (a thermau cysylltiedig), bob amser, ar ôl diwedd 2023.

8. Mae'r Offeryn Statudol hefyd yn dileu cyfeiriadau at hawliau a gydnabyddir ac sydd ar gael mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 4 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a thermau fel “egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a ddargedwir”, oherwydd y newidiadau a wneir gan Ddeddf REUL i ddileu’r nodweddion ar gyfer dehongli cyfraith yr UE sy’n gymwys i REUL, ar ôl diwedd 2023.

9. Mae rhychwant tiriogaethol yr Offeryn Statudol fel a ganlyn:

    a. Mae gan ddiwygiad neu ddiddymiad o ddeddfiad neu ddarpariaeth o ddeddfiad yr un rhychwant â deddfiad neu ddarpariaeth o ddeddfiad a ddiwygir neu a ddiddymir, oni nodir yn wahanol.
    b. Mae gweddill yr offeryn yn rhychwantu'r DU gyfan.

10. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod offeryn tebyg i'w gymeradwyo gan y Senedd i newid cyfeiriadau, mewn deddfwriaeth bresennol a wnaed gan y Senedd, at “cyfraith yr UE a ddargedwir” i “cyfraith a gymathwyd”.

**Y darpariaethau sydd i'w gwneud gan yr Offeryn y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

11. Mae'r Offeryn Statudol yn gwneud darpariaeth berthnasol sy'n diwygio gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru ac sydd o fewn meysydd datganoledig. Er enghraifft, mae'r rhain yn cynnwys:

    a. Ymchwil ac arloesi (gan gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaeth yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar), fel y dengys y diwygiadau i Ddeddf yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar 2022
    b. Rheoleiddio proffesiynau a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol mewn cysylltiad â phroffesiynau datganoledig, fel y dengys y diwygiadau i Ddeddf Cymwysterau Proffesiynol 2022
    c. Pysgodfeydd, fel y dengys y diwygiadau i Ddeddf Pysgodfeydd 2020
    d. Amaethyddiaeth, fel y dengys y diwygiadau i Ddeddf Amaethyddiaeth 1970; Deddf Daliadau Amaethyddol 1986; Deddf Amaethyddiaeth 2020; a Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020
    e. Iechyd a chydymffurfio a gweithredu mewn perthynas â rhwymedigaethau rhyngwladol yn ymwneud â gofal iechyd, fel y

dengys y diwygiadau i Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) 2019

f. Gwastraff a'r amgylchedd, fel y dengys y diwygiadau i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

g. Lles anifeiliaid, fel y dengys y diwygiadau i Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006

12. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn fod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 10 uchod yn enghreifftiau o sut mae'r Offeryn Statudol hwn yn gwneud darpariaeth o ran Cymru drwy ddiwygio darpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

## Pam y mae'n briodol i'r Offeryn Statudol wneud y ddarpariaeth hon

13. Fy marn i yw ei bod yn briodol ymdrin â’r darpariaethau hyn yn yr Offeryn Statudol hwn oherwydd, er mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru mewn materion lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli, mewn rhai amgylchiadau mae manteision o weithio ar y cyd â Llywodraeth y DU a’r Llywodraethau Datganoledig eraill pan fo rhesymeg glir dros wneud hynny. Mân newidiadau gweithredol a chanlyniadol yw'r diwygiadau yn bennaf, sy'n deillio o newidiadau terminoleg fel y nodir ym mharagraff 6. Felly, fy marn i yw ei bod yn briodol ymdrin â’r darpariaethau hyn yn yr Offeryn hwn gan mai dyna'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi’r darpariaethau hyn i fod yn gymwys yng Nghymru.

## Goblygiadau ariannol

14. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yng Nghymru o ran cydsynio i'r darpariaethau yn yr Offeryn Statudol.

**Lesley Griffiths AS**

**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**

**Hydref 2023**